Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019

11:00 – 13:00

Y Llwyfan, Cerfyrddin

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Dr Haydn E Edwards William Callaway Nia Elias Gwilym Dyfri Jones Dr Hefin Jones Pedr ap Llwyd Gareth Pierce Meri Huws Llinos Roberts Yr Athro Hywel Thomas
Sylwedyddion:	Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Lleucu Myrddin (UCMC)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu
Ymddiheuriadau:	Dr Rhodri Llwyd Morgan Yr Athro Jerry Hunter

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Dr Rhodri Llwyd Morgan a'r Athro Jerry Hunter. 1.3 Esboniodd y Prif Weithredwr fod dau absenoldeb oherwydd salwch yn y Coleg yn golygu mai Suzanne Lewis a fyddai'n gyfrifol am y cofnod. 1.4 Dymunodd y Cadeirydd adferiad buan i ddau aelod o staff yn y Coleg, sef Nia Brown a Catherine Rees.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle y gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 26 Mehefin 2019	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2019.		
4. Materion yn codi	Nid oedd unrhyw faterion i'w codi.		
5. Gohebiaeth	Dim gohebiaeth i'w nodi.		
6. Materion Cyfansoddiadol i. Aelodaeth y Coleg	*Ymunodd Angharad Lloyd Williams â'r cyfarfod ar y pwynt hwn.*		

ii. Trefniadau'r cyfarfod cyffredinol blynyddol iii. I dderbyn cylchoedd gorchwyl • Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant • Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol • Pwyllgor Archwilio a Risg	**Aelodaeth y Coleg** 6.1 Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Llys ym mis Mawrth 2019 cyflwynwyd argymhelliad na ddylid newid aelodaeth y Coleg ar hyn o bryd. Yn dilyn trafodaeth fer, cytunwyd ar hyn. **Trefniadau'r cyfarfod cyffredinol blynyddol** 6.2 Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol ar 24 Mawrth 2020 yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd.. **I dderbyn cylchoedd gorchwyl** 6.3 Cymeradwywyd cylch gorchwyl Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant 6.4 Cymeradwywyd cylch gorchwyl Pwyllgor Cyllid a Dibenion gydag un newid sef i nodi 'hyd at dri aelod arall' yn y trydydd pwynt bwled yng nghymal 8 6.5 Cymeradwywyd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg gydag un newid sef i nodi 'hyd ar dri aelod arall yn y trydydd pwynt bwled yng nghymal 4. 6.6 Cytunwyd i ychwanegu 'Cadeirydd y Bwrdd Strategol ôl-16' at aelodaeth ex-officio y Bwrdd Academaidd.	Ychwanegu'r newid i gylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion. Ychwanegu'r newid i gylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Risg. Ychwanegu'r newid i gylch gorchwyl y Bwrdd Academaidd.	
7. Polisi Iaith Gymraeg	7.1 Cyflwynwyd yr polisi diwygiedig gan Dr Dylan Phillips.		

	7.2 Holwyd cwestiwn gan Gwilym Dyfri Jones ynglych ymestyn y polisi i gynnwys canghennau'r Coleg a chytunwyd i ystyried hyn ymhellach. 7.3 Cynigiodd Gareth Pierce newid geiriad yn ymwneud â 'Darparu Cyfieithu ar y Pryd' (5.4.1) i 'aelodau neu ymwelwyr di-Gymraeg'. 7.4 Derbyniwyd y polisi diwygiedig gyda'r addasiad uchod.		
8. Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol i. I nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019 ii. I dderbyn Polisi Gwerthuso Swyddi diwygiedig	**Nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol** 8.1 Cyflwynwyd y cofnodion gan Pedr ap Llwyd a nodwyd bod Sterling Asset Management wedi cael eu penodi i werthuso gwaith rheolwyr buddsoddiadau'r Coleg. Nodwyd hefyd fod adolygu cyflogau uwch reolwyr i'w trafod mewn cyfarfod caeedig heddiw. Derbyniwyd y cofnodion. **Derbyn Polisi Gwerthuso Swyddi diwygiedig** 8.2 Ystyriwyd y polisi diwygiedig ac thrafodwyd yn benodol y cymalau yn ymwneud ag apêl. Yn absenoldeb Catherine Rees cytunodd y Prif Weithredwr i ystyried y materion a godwyd cyn i'r polisi diwygiedig gael ei gadarnhau.	Bydd y rheoliadau ariannol yn cael eu cylchredeg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gyda'r cofnodion.	
9. Pwyllgor Archwilio a Risg	**Nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019**		

i. I nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2019 ii. I dderbyn cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2018/19 iii. Y Gofrestr Risg Strategol – Hydref 2019	9.1 Cyflwynwyd y cofnodion gan William Callaway, a chytunwyd i'w derbyn. **Derbyn cyfrifon blynyddol archwiliedig y Coleg ar gyfer 2018/19** 9.2 Cyflwynwyd a derbyniwyd y cyfrifon. Nodwyd bod y cyfrifon wedi derbyn archwiliad allanol glân. Nodwyd bod yr holl golled a wnaed yn ymwneud â darpariaeth pensiwn USS. **Y Gofrestr Risg Strategol – Hydref 2019** 9.3 Cyflwynwyd y Gofrestr gan William Callaway. Trafodwyd effaith yr amgylchedd a pholisïau allanol ar y Coleg a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â hynny a'r Coleg. Cytunwyd i drafod yr heriau newydd hyn yn y dyfodol agos.		
10. Bwrdd Academaidd i. I dderbyn cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019 ii. Adroddiad llafar gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd	**Derbyn cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019** 10.1 Cyflwynwyd y cofnodion gan Dr Hefin Jones. Tynnwyd sylw at drafodaeth a godwyd gan y myfyrwyr ar sut y dylid diffinio modiwl cyfrwng Cymraeg. Esboniodd Dr Dylan Phillips (yn sgil cyfarfod â HEFCW) y bydd cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu ymhlith prifysgolion a'u staff sy'n cynnig canllawiau, ac y bydd y Coleg yn atgoffa prifysgolion am beth yn union a olygir wrth fodiwl cyfrwng Cymraeg. 10.2 Derbyniwyd y cofnodion y Bwrdd Academaidd. **Adroddiad llafar gan Gadeirydd y Bwrdd Academaidd**		

	10.3 Cyfeiriodd Dr Hefin Jones yn benodol at ddiffiniad o fodiwl cyfrwng Cymraeg, gwaith golygyddol *Gwerddon*, canllawiau newydd y QAA sy'n ymwneud â hawl myfyrwyr i gyflwyno asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg a chael arholwyr cyfrwng Cymraeg, a chyfeiriodd at ymateb brwd myfyrwyr sy'n medru'r Gymraeg tu hwnt i'r ffin.		
11. Adroddiad y Prif Weithredwr	11.1 Cyflwynwyd crynodeb gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Bwrdd. 11.2 Mewn perthynas â chyllid nodwyd gan y Prif Weithredwr fel a ganlyn: • Mae'r cyd-destun allanol yn ansicr. Mae cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru wedi cael ei ohirio tan 16 Rhagfyr ond rhagwelir y bydd prif gyllideb y Coleg yn 2020/21 yn gyson gyda chyllideb eleni. • Mewn perthynas â'r cyllideb y Coleg ar gyfer y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau adroddwyd fod trafodaethau yn parhau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. • Mae nifer o grantiau atodol wedi dod i law yn ystod y flwyddyn, oddi wrth Lywodraeth Cymru, sef: o £18,000 HCA o £110,000 Prosiectau'r i gefnogi'r Gymraeg fel pwnc o £71,000 Adnoddau ôl-16 o £60,000 Prentisiaethau 11.3 Cafwyd trafodaeth fer ynghylch Addysg Gychwynnol Athrawon a chyfrifoldebau'r Coleg yn y maes hwn.		

	Nodwyd fod y Gweinidog wedi cyfeirio mewn ateb seneddol at rôl mewn perthynas â'r gefnogaeth a roddir i hyfforddeion i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg. Nodwyd consyrn mwy cyffredinol gan aelodau am y niferoedd o hyfforddeion fydd yn medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chytunwyd y dylai'r Bwrdd gynnal trafodaeth arall ar y mater yn fuan. 11.4 Cadarnhawyd y bydd y Coleg yn darparu gofod ar rent i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn swyddfa Caerdydd o Ionawr 2020 ymlaen. 11.5 Dymunwyd yn dda i Catherine Rees, a nodwyd bod ei chais i leihau ei gwaith o swydd amser llawn i swydd 0.6 wedi cael ei dderbyn. Bydd Catherine Rees yn parhau i weithredu fel Ysgrifennydd y Bwrdd Cyfarwyddwr ond bydd rhai o'i chyfrifoldebau yn cael eu trosglwyddo i aelodau eraill o staff y Coleg.		
12. Cynllun Strategol i. I dderbyn ac ystyried draft terfynol y Cynllun Strategol, yn dilyn yr ymgynghoriad	**Derbyn ac Ystyried Drafft Terfynol y Cynllun Strategol yn dilyn yr ymgynghoriad** 12.1 Cyflwynwyd drafft terfynol y Cynllun Strategol gan y Prif Weithredwr. Nodwyd i'r drafft dderbyn nifer o sylwadau drwy'r broses ymgynghori ond nid oedd y sylwadau hynny at ei gilydd yn sylweddol. Cynhwyswyd mesuryddion yn y drafft terfynol. Caiff y Cynllun Strategol ei lansio yng Nghaerdydd ar 5 Chwefror 2020. 12.2 Awgrymodd Gareth Pierce y dylid crybwyll pwnc y Gymraeg ar fwy nag un achlysur a derbyniwyd hynny.	Cyflwyniad ar weithrediad y cynllun strategol.	

	12.3 Cynigodd Gareth Pierce bod angen diffinio'r term 'pwll potensial' yn yr adran mesuryddion [sef: y siaradwyr Cymraeg sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym mhrifysgolion Cymru] yn hytrach na nodi 'pwll potensial'. 12.4 Awgrymodd Meri Huws fod angen cyfeirio at strategaethau eraill Llywodraeth Cymru yn hytrach nag at un strategaeth benodol. 12.5 Derbyniwyd y drafft terfynol gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. 12.6 Adroddodd y Prif Weithredwr y byddai'r Bwrdd yn derbyn papur ac amserlen maes o law ar gyfer adrodd ar fesuryddion y Cynllun Strategol.		
13. Addysg Bellach a Phrentisiaethau i. I nodi cofnodion cyfarfod Bwrdd Strategol ôl-16 (cysgodol) a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019 ii. I ystyried a chymeradwyo Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Strategol ôl-16	**Nodi cofnodion cyfarfod Bwrdd Strategol ôl-16 (cysgodol) a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019** 13.1 Cyflwynwyd y cofnodion gan Meri Huws. Nodwyd cymaint o gynrychiolaeth o'r colegau AB a gafwyd a chymaint o frwdfrydedd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfarfod. Nodwyd bod angen sicrhau llais cryf ar gyfer dysgwyr AB. Cafwyd trafodaethau gwerthfawr a brwd am gyfraniad y Coleg mewn prentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Yn y trafodaethau cafwyd awydd i greu agenda ar gyfer y maes. Nodwyd y bydd angen rhagor o gyllid i ddatblygu'r maes ymhellach am gyfnod canolig a hir. Nodwyd bod angen mawr am gapasiti staffio mewn sefydliadau i ddatblygu'r maes. 13.2 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2019.		

	Ystyried a chymeradwyo Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Strategol ôl-16 13.3 Derbyniwyd y cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Strategol ôl-16.		
14. Enwebiadau Cymrodyr er anrhydedd y Coleg 2020	14.1 Cyflwynwyd enwebiadau gan y Prif Weithredwr ac fe'u derbyniwyd: • Ieuan Wyn • Denise Williams • Dr Iolo ap Gwynn		
15. Adroddiad y Cadeirydd	15.1 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad. 15.2 Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwyr am eu holl waith ac yn benodol am yr amser i drafod eu sgiliau a materion eraill yn ymwneud â'r Bwrdd a llywodraethiant y Coleg. Nodwyd fod yn broses flynyddol o adolygu perfformiad y Prif Weithredwr wedi ei chwblhau.		
16. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf.	16.1 Nodwyd dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf a daeth y cyfarfod i ben am 13:20.		
17. Hyfforddiant	17.1 Darparwyd sesiwn hyfforddiant i aelodau'r Bwrdd ar eu dyletswyddau fel cyfarwyddwyr ac ymddiriedolwyr gan Fflur Jones (Darwin Gray).		